# CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
# COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD 13.06.22 am 7pm YNG NGHANOLFAN YR HENOED / MINUTES OF MEETING HELD ON 13.06.22 at 7pm AT THE PENSIONERS' HALL

| | | |
|---|---|---|
| | **PRESENNOL**: Cyng S Jones, C Summers, E L Jones, D Roberts, N Evans (Cyngor Sir), G Owen (Clerc) | **PRESENT:** Cllrs S Jones, C Summers, E L Jones, D Roberts, N Evans (County Council), G Owen (Clerk) |
| 1 | **Croeso ac ymddiheuriadau** - Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd S Jones pawb i gyfarfod misol cyntaf y cyngor newydd. Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd peidio â rhyddhau unrhyw wybodaeth o'r cyfarfod gan nad yw cofnodion yn cael eu cadarnhau tan y cyfarfod misol nesaf. Dywedodd hefyd fod y Cyngor yn croesawu unrhyw un o unrhyw iaith. Hefyd, ni fydd y Cyngor yn ymdrin â chwynion dienw. | **Welcome and apologies** - The Chairman Cllr S Jones welcomed everyone to the first monthly meeting of the new council. The Chairman stressed the importance of not releasing any information from the meeting as minutes are not confirmed until the next monthly meeting. She also stated that the Council welcomes anyone of any language. Also, the Council will not handle anonymous complaints. |
| 2 | **Datgan Diddordeb** – Cyng D Roberts eitem 6.2 (cae pêl-droed) | **Declarations of Interest** – Cllr D Roberts item 6.2 (football field) |
| 3 | **Derbyn cofnodion y cyfarfod misol diwethaf** – Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 11.04.22 fel rhai cywir. | **Acceptance of minutes of last monthly meeting** – The minutes of the meeting of 11.04.22 were accepted as a true record. |
| 4 | **Materion yn codi o'r cofnodion** | **Matters arising from the minutes** |
| 4.1 | **Gorlif o ddŵr Bragdy - New Haven.** Dywedodd y Clerc nad oedd wedi clywed dim byd pellach gan y Cyngor Sir er eu bod wedi gwneud cais am grant i Lywodraeth Cymru. Cynigiodd y Cyng N Evans gysylltu â'r Cyngor Sir am ddiweddariad a bydd yn gofyn a yw'n ddŵr glân neu fudr. | **Overflow of water Bragdy - New Haven.** The Clerk stated that he has not heard anything further from the County Council although they have made an application for a grant to the Welsh Government. Cllr N Evans offered to contact the County Council for an update and will ask if it is clean or dirty water. |
| 4.2 | **Diffibriliwr** – Cynigiodd y Cyng C Summers wneud y gwiriadau angenrheidiol ar y diffibriliwr. | **Defibrillator** – Cllr C Summers offered to do the necessary checks on the defibrillator. |
| 4.3 | **Safle Bws gyferbyn â Llain Delyn** – Y Clerc wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir am ddiweddariad. Dywedodd y Cadeirydd fod arwydd safle bws yn ei le. Bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir am ymateb. | **Bus Stop opposite Llain Delyn** – The Clerk has contacted the County Council for an update. The Chairman stated that a bus stop sign is in place. The Clerk will contact the County Council for a response. |
| 4.4 | **Prydles Cae Chwarae** – Gweler 6.2 | **Lease of Playing Field** – See 6.2 |
| | **Llofnod**<br><br>**Cadeirydd Dyddiad 04.07.22** | **Signature**<br><br>**Chairman Date 04.07.22** |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **5** | **Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn** | **Correspondence Anglesey County Council** |
| | Dim | None |
| **6** | **Gohebiaeth Arall** | **Other Correspondence** |
| 6.1 | **Ceisiadau am gyfethol i'r cyngor**: Cyng Neville Evans, Ricky Williams, Thomas Dylan Roberts, Anne Williams. Cytunwyd i dderbyn y pedwar cais i ddod yn aelodau o'r cyngor. | **Requests for co-option to the council:** Cllr Neville Evans, Ricky Williams, Thomas Dylan Roberts, Anne Williams. It was agreed to accept all four applications to become members of the council. |
| **6.2** | **Cyng N Evans Prydlesi Cae Chwarae a Chae Peldroed** – Ebost oddi wrth y Cyng Evans at y Cyngor Cymuned: *Yn dilyn cyfarfod o Hyb Cymunedol Gwalchmai gofynwyd imi holi y Cyngor Cymuned a'r Cyngor Sir beth yw'r sefyllfa o ran cytundebau (lease) y maes chwarae a'r cael pel droed yng Ngwalchmai?* *Y rheswm am y cwestiwn ydi am fod yr Hyb Cymunedol yn awyddus ceisio am grantiau i wella y cyfleusterau yma ond ar ddeall nad oes modd gwneud hynny gan mai eiddo y cyngor cymuned ydyn nhw ac mai dim ond 8 mlynedd yw'r lease. Mae angen 20 mlynedd o lease er mwyn gallu ceisio am grantiau gwella.* *Y cais yn syml felly ydi a oes modd i cyngor bro Trewalchmai ofyn i'r cyngor sir am ymestyn y lease i 20 mlynedd er mwyn sicrhau y ddau safle i'r dyfodol ac i allu bod mewn sefyllfa i geisio am grantiau i wella a datblygu y safleoedd. Mae'n debyg bydd angen cael cadarnhad Adran Gyfreithiol Cyngor Mon ynglyn a'r sefyllfa a'r drefn, ond sa well gennyf fod hyn yn cael ei wneud drwy'r cyngor bro nac imi holi fel cynghorydd sir er mwyn fod yn hollol agored ac fod pawb yn rhan o'r drafodaeth.* Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ofyn 1 A fydd gofyn i'r Cyngor Cymuned dalu rhent ôl-ddyddiedig? 2 A ellir terfynu'r brydles heb unrhyw gosb?<br>**Llofnod**<br><br>**Cadeirydd Dyddiad 04.07.22** | **Cllr N Evans Leases Playing Field and Football Field** – Email from Cllr Evans to the Community Council: *Following a meeting of the Gwalchmai Community Hub I was asked to ask the Community Council and the County Council what the situation is regarding the lease of the playing field and the football facility at Gwalchmai?* *The reason for the question is because the Community Hub is keen to apply for grants to improve these facilities but understand that it is not possible to do so as they are owned by the community council and the lease is only 8 years. 20 years of lease is required to be able to apply for improvement grants.* *The application therefore is simply whether Trewalchmai community council can ask the county council to extend the lease to 20 years in order to secure both sites in the future and to be in a position to apply for grants for improvement and development. the sites. Confirmation of the situation and procedure is likely to be required from Anglesey Council's Legal Department, but I would prefer that this be done through the community council than for me to inquire as a county councillor in order to be completely open and that everyone is part of the discussion.* The Clerk was asked to contact the County Council to ask 1 Will the<br><br>**Signature**<br><br>**Chairman Date 04.07.22** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Community Council be asked to pay backdated rent? 2 Can the lease be terminated with no penalty? |
| 7 | **Materion Eraill** | **Other Matters** |
| 7.1 | **Ymddiriedolaeth William Bold –** Darllenwyd e-bost oddi wrth Mr Rees Roberts, Ysgrifennydd yr Ymddiriedolaeth yn gofyn am ddau gynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned i eistedd ar y Bwrdd o 01.07.22 am 4 blynedd. Gwirfoddolodd y Cynghorwyr S Jones ac E L Jones i gynrychioli'r Cyngor Cymuned. | **William Bold Trust** – An email was read from Mr Rees Roberts, Secretary of the Trust asking for two representatives of the Community Council to sit on the Board from 01.07.22 for 4 years. Cllrs S Jones and E L Jones volunteered to represent the Community Council. |
| 7.2 | **Cofnodion –** Gwirfoddolodd Cyng C Summers i osod cofnodion misol y cyngor ar yr hysbysfwrdd y tu allan i'r neuadd. | **Minutes** – Cllr C Summers volunteered to place the council monthly minutes on the noticeboard outside the hall. |
| 7.3 | **Llwybrau Cyhoeddus** – Cytunwyd bod angen cerdded y llwybrau cyhoeddus ac yna eu cofnodi yng nghofnodion y cyngor i sicrhau eu bod yn cael eu cadw ar agor. | **Public Footpaths** – It was agreed that the public footpaths need to be walked and then recorded in the council minutes to ensure that they are kept open. |
| 8 | **Materion ariannol** | **Financial Matters** |
| | Dim | None |
| 9 | **Materion ar gyfer y cyfarfod nesaf** | **Matters for the next meeting** |
| | Dim | None |
| | **Llofnod**<br><br>**Cadeirydd  Dyddiad 04.07.22** | **Signature**<br><br>**Chairman  Date 04.07.22** |